Cyfarfod cynllunio i baratoi ar gyfer Cyfarfod y Trydydd Sector â Gweinidog yr Economi
07/06/2021
10:30 tan 12:00pm
trwy Microsoft Teams

Yn bresennol	
Enw	**Mudiad**
Matt Brown	CGGC
Ben Lloyd	CGGC
Michelle Rowson	Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo
Clare Rudall	Busnes yn y Gymuned
Rachel Burr	Cymdeithas Cludiant Cymunedol
San Leonard	Cwmnïau Cymdeithasol Cymru
Gurmit Singh Randhawa	Cyngor Rhyngffydd Cymru
Lisa Wills	Y Ffatri Gelf
Jamie Grundy	Cefnogaeth Tu Fewn Tu Fas Cymru
Peter Williams	Cymdeithas Datblygu Ymddiriedolaethau Cymru
Derek Walker	Canolfan Gydweithredol Cymru
Ymddiheuriadau	
Enw	**Mudiad**
Rachel Sharp	Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt
James Byrne	Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt
David Williams	Lais y Goedwig
Susie Ventris Field	Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru
Peter Jones	Cŵn Tywys Cymru
Jess McQuade	Cyswllt Amgylchedd Cymru
Ceri Hudson	Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo
Catherine Evans	Canolfan Gydweithredol Cymru
Gareth Coles	Celfyddydau Gwirfoddol Cymru
Gemma Lelliott	Cymdeithas Cludiant Cymunedol
Jonathan Mail	Cymdeithas Manwerthu Elusennau

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Fel y nodwyd uchod.

Hefyd, rhannodd MB y rhestr cyfrifoldebau gweinidogol newydd a gyflwynwyd gan BL gan bwysleisio effaith y portffolio Newid Hinsawdd newydd a'r newidiadau mawr a gyhoeddwyd.

2. Nodiadau o'r cyfarfod Gweinidogol blaenorol (21.10.20)

Cytunwyd yn unol â'r cyfarfod blaenorol.

3. Trafod a chytuno ar bapurau ar gyfer y Cyfarfod Gweinidogol (dyddiad i'w gadarnhau)
Syniadau ar gyfer papur –
Cynhaliodd Busnes yn y Gymuned gynllun peilot ar draws lleoliadau gwahanol yn y Deyrnas Unedig ond hefyd yng Nghasnewydd gan geisio paru anghenion busnes busnesau bach â'r cymorth sydd ar gael gan fusnesau mwy.

Potensial papur gwybodaeth ar gyfer y maniffesto Menter Gymdeithasol i siarad â'r Gweinidog am ei flaenoriaethau a'i weledigaeth ar gyfer y sector.

Canol trefi (parhau o'r cyfarfod cynllunio blaenorol)

Cronfeydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig – Y cyfleoedd a'r heriau a oedd gennym ni o ran cronfeydd sy'n fyw a'r rhai sydd i ddod. Gan gynnwys a oes posibilrwydd y gallai Llywodraeth Cymru ystyried gweithio ochr yn ochr â'r Gronfa Perchnogaeth Gymunedol i'w gwneud yn fwy hygyrch.

Cytunwyd ar ddau bapur –

Papur Economi Menter Gymdeithasol a Lles –
Arwain – Derek Walker
Amlinelliad – Dogfen helaeth a fyddai'n ceisio pwysleisio rôl a gwaith y sector yn y maes hwn gan gyfeirio'n benodol at fenter gymdeithasol, canol trefi, lles, economi gan adeiladu ar faniffestos. Daw'r drafodaeth i ben trwy ofyn nifer o gwestiynau i'r Gweinidog eu trafod o ran ei feddyliau a'i ddyheadau yn y meysydd hyn.

Cyllido Llywodraeth y Deyrnas Unedig
Arwain – CGGC
Amlinelliad – Papur sy'n dwyn ynghyd profiad y sector hyd yma o ran y Gronfa Adfywio Cymunedol a'r Gronfa Codi'r Gwastad, yn ogystal â'n gobeithion a chydweithio arfaethedig rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru ar y Gronfa Perchnogaeth Gymunedol yn ogystal â'n barn ni ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin sy'n cael ei datblygu o hyd.

4. Unrhyw Fater Arall

Pwysleisiodd MB y byddwn ni'n rhannu dyddiad y cyfarfod cyn gynted ag y caiff ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.